# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion: PET(3) 12-10 : Dydd Mawrth 12 Hydref 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser:** 09.00 – 10.25
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd
**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru
Veronica German AC, Dwyrain De Cymru

**Swyddogion**

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol
Rhodri Wyn Jones, Cymorth y Pwyllgor

**Tystion**

Richard Newton, Cyfarwyddwr, Rathbone Cymru
Andrew Cooksley, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hyfforddiant ACT

### Eitem 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### Eitem 2.Sesiwn Dystiolaeth: Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed – tystiolaeth gan Hyfforddiant ACT a Rathbone Cymru.

Papur: PET(3)-12-10 Papur Briffio

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Richard Newton, Cyfarwyddwr, Rathbone Cymru ac Andrew Cooksley, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hyfforddiant ACT fel rhan o'i ymchwiliad i'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed.

### Eitem 3. Deisebau newydd

Papur: PET(3)-12-10 Papur Briffio

**P-03-299 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Ysgrifennu at Awdurdodau Tân yng Nghymru i ofyn a allant hwy gydymffurfio â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

Ysgrifennu at Undeb y Frigâd Dân yn gofyn eu barn am y ddeiseb.

**P-03-302 Ffatri prosesu compost**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Eitem 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol.

Papur : PET(3)-12-10 Papur Briffio

**P-03-134 - Systemau Anrhydeddau i Gymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gau'r ddeiseb a pharatoi adroddiad cloi cryno arni.

**P-03-156 - Dal anadl wrth gysgu**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn a yw'r wybodaeth a gafwyd am y gwasanaeth a ddarperir yn cydfynd â'u profiadau hwy, ac yn gofyn a deimlant fod gwelliannau wedi'u gwneud ers 2008, pan gyhoeddwyd canllawiau NICE ar beiriannau CPAP.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am fanylion y canlyniadau a gafwyd i'r archwiliad ar gydymffurfio â chyfarwyddebau ynghylch anadlu gan Fyrddau Iechyd Lleol, a gynhaliwyd ym mis Medi 2010.

**P-03-200 - Camlas Morgannwg**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Caerdydd yn gofyn fod y prif ddeisebydd yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y Rhwydwaith Beicio Strategol yn y dyfodol.

Ysgrifennu at Gyngor Rhondda Cynon Taf yn gofyn am ragor o wybodaeth am eu trafodaethau â Chynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA), ac yn benodol a yw'r Gynghrair yn bwriadu bwrw ymlaen â'u cynlluniau ac os felly a oes modd cynnwys y deisebwyr wrth ddatblygu'r cynlluniau.

**P-03-204 - Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes Addysg Uwch**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gofyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod darganfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar Lywodraethu Addysg Uwch.

**P-03-227 - Yn erbyn y ffordd fynediad arfaethedig Metrix yn Llanmaes P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan – Trebefered**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ail-edrych ar y ddeiseb pan fydd yr Adolygiad Strategol o Amddiffyn a Diogelwch wedi'i gwblhau.

**P-03-230 - Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am fanylion y meini prawf ar gyfer dewis pa ddigwyddiadau a gaiff eu nodi gan Lywodraeth Cymru.

**P-03-231 - Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn:

A yw'r adolygiad o TAN 8 wedi edrych yn fanwl ar y mater hwn?

A yw hi'n rhagweld y bydd y canllawiau'n cael eu haddasu er mwyn estyn y llain glustogi o amgylch ffermydd gwynt?
- a oes camau wedi'u cymryd i ddynodi ac adolygu arferion mewn gwledydd eraill

fod y deisebwyr yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

**P-03-239 - Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgolion Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn eu barn am yr ymatebion oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru a hefyd yn gofyn am eglurhad ynghylch dehongliad y deisebwyr o 'ddysgu gydol oes' ac yn benodol, a yw hyn yn cydfynd â dehongliad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru.

**P-03-272 - Ni ddylid defnyddio ceffylau dan ddaear**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch yr adolygiad arfaethedig o'r Cod Ymarfer yn 2011, ac yn gofyn a oes modd i'r deisebwyr gael eu cynnwys yn y broses adolygu.

**P-03-284 - Tai Cymdeithasol Brynmawr**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gofyn ar ba gam yn y broses y mae'r cais cynllunio, a sut y maent yn cynnwys y gymuned leol yn y broses o wneud cais cynllunio.

**P-03-294 - Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn am ragor o fanylion, yn cynnwys amserlen benodol, o ran sut y mae'n bwriadu bwrw mlaen â'r mater hwn.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37**

## Eitem 5. Trafod y dystiolaeth

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Hyfforddiant ACT a Rathbone Cymru.

## Eitem 6. Blaenraglen waith y Pwyllgor ac adolygu'r dystiolaeth yn ymwneud â deiseb P-03-262 Sefydliad Heddwch Cymru

5.1Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ac yn adolygu tystiolaeth yn ymwneud â deiseb P-03-262 Sefydliad Heddwch Cymru

5.2Cytunodd y Pwyllgor i wneud trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod anffurfiol â'r deisebwyr.

5.3Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynigion i wneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog mewn cysylltiad â'r Pwyllgor Deisebau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2010**